Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 36

# Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mawrth 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 36

# The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 February 2026* |
| *Coming into force* | *11 March 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 36

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio gofynion a osodir ar awdurdodau lleol o dan Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor diffiniadau penodol yn Rheoliadau 2016 ac yn mewnosod y diffiniadau o "Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd" a "sefydliad trydydd sector".

Mae rheoliad 2(3) yn mewnosod paragraff newydd (2A) yn Rheoliadau 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant ar 30 Mehefin bob pum mlynedd.

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2016 drwy fewnosod gofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r camau sydd i'w cymryd yn y cynllun gweithredu a gosod terfyn amser iddynt gael eu cwblhau.

Mae rheoliad 2(5) yn mewnosod gofyniad newydd i awdurdodau lleol ymgymryd ag adroddiadau cynnydd blynyddol a chynlluniau gweithredu blynyddol, a'u cyhoeddi.

Mae rheoliad 2(6) a (7) yn diwygio'r rhestr o'r rhai y mae rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth lunio'r asesiad sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2016.

Mae rheoliad 2(9) yn rhoi Atodlen newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 36

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 26(1)(a) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Mawrth 2026.

**Diwygio Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016(**2**) wedi eu diwygio yn unol â'r canlynol.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniadau a ganlyn—

(i) "cyfnod sylfaen";

(ii) "grŵp monitro chwarae";

(b) yn y diffiniad o "darparwyr gofal plant yn y cartref", yn lle "adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002" rhodder "adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**)";

(c) yn y lleoedd priodol, yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd" ("*Family Information Service*") yw gwasanaeth y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei ddarparu o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006;";

(**1**) 2006 p. 21. Gweler y diffiniad o "prescribed" yn adran 30 o Ddeddf Gofal Plant 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**2**) O.S. 2016/88 (Cy. 42).
(**3**) 2006 p. 32.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"ystyr "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas."

(3) Yn rheoliad 3 (y ddyletswydd i lunio a chyhoeddi asesiadau), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Ond y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r asesiad yn 2027 ac mewn blynyddoedd dilynol yw 30 Mehefin."

(4) Yn rheoliad 4 (cynllun gweithredu), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Rhaid i gynllun gweithredu—

(a) blaenoriaethu'r camau sydd i'w cymryd, a

(b) nodi'r cyfnod amser y bydd yr awdurdod lleol yn cwblhau'r camau oddi mewn iddo."

(5) Ar ôl rheoliad 4 mewnosoder—

**"Adroddiad Cynnydd Blynyddol**

**4A.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol lunio adroddiad cynnydd blynyddol a chynllun gweithredu pellach ar bob pen-blwydd dyddiad cyhoeddi'r asesiad.

(2) Rhaid i'r adroddiad cynnydd blynyddol nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y camau yn y cynllun gweithredu a nodi unrhyw faterion neu newidiadau sylweddol ers cyhoeddi'r asesiad."

(6) Yn rheoliad 6 (ymgynghori)—

(a) yn lle "rhai o blith y canlynol yn ei ardal, y mae'n ystyried eu bod yn briodol" rhodder "personau a ganlyn yn ei ardal";

(b) hepgorer paragraffau (d) i (k).

(7) Yn lle rheoliad 7, rhodder—

**"7.**—(1) Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ymgynghori â'r canlynol—

(i) y Bwrdd Diogelu Plant y mae'n bartner Bwrdd Diogelu iddo(**4**);

(ii) os yw wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol, y fforwm addysg cyfrwng Cymraeg;

(iii) swyddog arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae yr awdurdod lleol, os oes un;

(iv) y corff sy'n gyfrifol am benderfynu a oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol a llunio a chynnal cynllun datblygu unigol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**5**), a

(**4**) Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(**5**) 2018 dccc 2. Diffinnir anghenion dysgu ychwanegol yn adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae cynlluniau datblygu unigol wedi eu nodi ym Mhennod 2 o'r Ddeddf honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) hysbysu unrhyw swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith([6]) yn ardal yr awdurdod lleol a'u gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddog arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae" yw'r swyddog yn yr awdurdod lleol sydd wedi ei ddynodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 11 o'r Mesur."

(8) Hepgorer rheoliad 12 (adroddiadau cynnydd blynyddol).

(9) Yn lle'r Atodlen rhodder—

## "YR ATODLEN

Rheoliad 5

## Y materion sydd i gael eu cynnwys yn yr asesiad

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "gofal plant a gyllidir" ("*funded childcare*") yw gofal plant a gyllidir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Weinidogion Cymru drwy grantiau neu gynlluniau eraill y mae cyllid yn cael ei dalu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwyddynt i ddarparwyr gofal plant er mwyn lleihau cost y gwasanaethau hynny i rieni;

ystyr "rhestr aros darparwr gofal plant" ("*childcare provider's waiting list*") yw rhestr o geiswyr sy'n aros am gynnig lle gofal plant oddi wrth ddarparwr gofal plant mewn cysylltiad â phlentyn.

**2.** Rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys dadansoddiad o argaeledd a diffyg argaeledd pob math o ofal plant a bennir yn rheoliad 2(2), a rhaid iddo gynnwys manylion ynghylch—

(a) capasiti gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal plant,

(b) nifer y plant y gofelir amdanynt ar hyn o bryd,

(c) capasiti darparwyr gofal plant sy'n gallu cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd,

(d) capasiti darparwyr gofal plant sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gofal plant a gyllidir,

(e) capasiti gwasanaethau sy'n cynnig lleoedd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg,

(f) nifer y lleoedd gwag a rhesymau dros y lleoedd gwag,

(g) asesiad o restrau aros darparwr gofal plant a rhesymau pam y mae'r rhestrau aros yn bodoli,

(h) ystod y gwasanaethau a gynigir gan bob un o'r mathau o ofal plant,

(i) ystod oedran plant yn y mathau o ofal plant,

(j) ystod y ffioedd fesul awr a godir ar gyfartaledd am y gofal plant,

(k) asesiad o'r galw am ofal plant yn yr ardal, gan gynnwys—

(i) effaith newid yn nifer—

([6]) Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dynodi rhai o'i swyddfeydd ledled y Deyrnas Unedig yn swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith. Mae swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn cefnogi unigolion o oedran gweithio i ddod o hyd i gyflogaeth ac i hawlio budd-daliadau.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(aa) y plant sy'n defnyddio gofal plant,

(bb) y plant sy'n defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg,

(cc) y plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a

(ii) effaith newid yn y boblogaeth, ac

(l) unrhyw ffactorau eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r galw.

**Dosbarthiad daearyddol**

**3.** Rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys manylion ynghylch—

(a) dosbarthiad daearyddol pob math o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol,

(b) unrhyw fylchau yn y dosbarthiad daearyddol hwnnw, ac

(c) ystyriaeth o effeithiau'r cyflenwad o ofal plant a'r galw am ofal plant yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

**Cynaliadwyedd**

**4.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol yn ardal yr awdurdod lleol.

**Dadansoddiad o'r bylchau**

**5.** Rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw, ac unrhyw fwlch yn y cyflenwad a'r galw, o ran darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, gan ystyried dadansoddiad demograffig lleol.

**Crynodeb o anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu**

**6.** Pan fo unrhyw anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu wedi eu nodi yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o'r anghenion hynny nad ydynt wedi eu diwallu, gan gynnwys—

(a) y mathau a'r ystod o wasanaethau gofal plant nad ydynt ar gael;

(b) oedran plant;

(c) adegau pan na fo gofal plant ar gael;

(d) lleoliad y gofal plant;

(e) darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu blant y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(f) darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg;

(g) darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng iaith arall;

(h) lleoedd gofal plant a gyllidir;

(i) unrhyw ffactorau eraill.

**Rhwystrau i ddarpariaeth gofal plant**

**7.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch unrhyw rwystrau a nodwyd wrth gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys—

(a) hygyrchedd darpariaeth gofal plant;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) a yw cost gofal plant yn atal rhieni rhag cael mynediad at wasanaethau, neu'n eu hannog i beidio â chael mynediad at y gwasanaethau hynny;

(c) y rhwystrau a brofir gan—

(i) rhieni sy'n gweithio;

(ii) rhieni sy'n ceisio gwaith neu gyfleoedd hyfforddi;

(iii) aelwydydd di-waith;

(iv) teuluoedd ar incwm isel;

(v) teuluoedd rhiant unigol;

(vi) teuluoedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol;

(vii) teuluoedd a chanddynt blant ag anghenion dysgu ychwanegol;

(d) unrhyw rwystrau eraill a nodwyd.

**Datblygu a hyfforddi**

**8.** Rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o unrhyw faterion a nodwyd mewn perthynas â datblygu'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant y gweithlu presennol ac amlinelliad o sut yr ymdrinnir â hwy."

*Dawn Bowden*
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Chwefror 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 36

## CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend requirements placed on local authorities under the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2016 ("the 2016 Regulations").

Regulation 2 of these Regulations omits certain definitions in the 2016 Regulations and inserts the definitions of "Family Information Service" and "third sector organisation".

Regulation 2(3) inserts a new paragraph (2A) into the 2016 Regulations requiring the local authority to publish its childcare sufficiency assessments on 30 June every five years.

Regulation 2(4) amends regulation 4 of the 2016 Regulations by inserting additional requirements on local authorities to prioritise the steps to be taken in the action plan and set a time limit for them to be completed.

Regulation 2(5) inserts a new requirement for local authorities to undertake and publish annual progress reports and annual action plans.

Regulation 2(6) and (7) amend the list of those whom the local authority must consult when preparing the assessment required under regulation 3 of the 2016 Regulations.

Regulation 2(9) substitutes a new Schedule into the 2016 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 36

## CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 February 2026* |
| *Coming into force* | *11 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 26(1)(a) and (2) of the Childcare Act 2006(**1**), make the following Regulations.

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 11 March 2026.

### Amendments to the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2016

**2.**—(1) The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2016(**2**) are amended in accordance with the following.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(a) omit the following definitions—

(i) "foundation phase";

(ii) "play monitoring group";

(b) in the definition of "home childcare providers", for "section 12 of the Tax Credits Act 2002" substitute "section 60 of the Government of Wales Act 2006(**3**)";

(c) in the appropriate places, in alphabetical order, insert—

""Family Information Service" ("*Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd*") means a service which a local authority is required to provide under section 27 of the Childcare Act 2006;";

(**1**) 2006 c. 21. See the definition of "prescribed" in section 30 of the Childcare Act 2006. The functions of the National Assembly for Wales under section 26 of the Childcare Act 2006 transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**2**) S.I. 2016/88 (W. 42).
(**3**) 2006 c. 32.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"“third sector organisation” (“*sefydliad trydydd sector*”) means an organisation which a person might reasonably consider to exist wholly or mainly to provide benefits for society;”.

(3) In regulation 3 (duty to prepare and publish assessments), after paragraph (2) insert—

“(2A) But the date by which the assessment must be published in 2027 and in subsequent years is 30 June.”

(4) In regulation 4 (action plan), after paragraph (2) insert—

“(3) An action plan must—

(a) prioritise the steps to be taken, and

(b) set out the time period within which the local authority will complete the steps.”

(5) After regulation 4 insert—

**“Annual Progress Report**

**4A.**—(1) A local authority must prepare an annual progress report and a further action plan on each anniversary of the date of the publication of the assessment.

(2) The annual progress report must set out the progress which has been made against the steps in the action plan and set out any significant issues or changes since the publication of the assessment.”

(6) In regulation 6 (consultation)—

(a) for “such of the following in its area, as it considers appropriate” substitute “the following persons in its area”;

(b) omit paragraphs (d) to (k).

(7) For regulation 7, substitute—

**“7.**—(1) In preparing the assessment the local authority must—

(a) consult with the following—

(i) the Safeguarding Children Board of which it is a Safeguarding Board partner(**4**);

(ii) if established in the local authority’s area, the Welsh medium education forum;

(iii) the local authority’s play sufficiency lead officer, if any;

(iv) the body responsible for determining whether a child has additional learning needs and preparing and maintaining an individual development plan under the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**5**), and

(**4**) Section 134(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4).
(**5**) 2018 anaw 2. Additional learning needs are defined in section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018. Individual development plans are set out in Chapter 2 of that Act.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) notify any Jobcentre Plus offices(**6**) in the local authority's area and invite the submission of any views.

(2) In this regulation, "play sufficiency lead officer" means the officer in the local authority designated with responsibility for ensuring that the local authority fulfils its duties under section 11 of the Measure."

(8) Omit regulation 12 (annual progress reports).

(9) For the Schedule substitute—

## "SCHEDULE

Regulation 5

## Matters to be contained in the assessment

**1.** In this Schedule—

"childcare provider's waiting list" ("*rhestr aros darparwr gofal plant*") means a list of applicants who await an offer from a childcare provider for a childcare place in respect of a child;

"funded childcare" ("*gofal plant a gyllidir*") means childcare funded in whole or in part by the Welsh Ministers through grants or other schemes through which funds are paid directly or indirectly to childcare providers to reduce the cost of those services to parents.

**2.** The local authority's assessment must include an analysis of the availability and lack of availability of each type of childcare specified in regulation 2(2), and include details of—

(a) the capacity of services provided by childcare providers,

(b) the number of children currently cared for,

(c) the capacity of childcare providers who are able to support children who have additional learning needs or children who require specialist care due to a disability,

(d) the capacity of childcare providers registered to provide funded childcare,

(e) the capacity of services who offer Welsh language places,

(f) the number of vacant places and reasons for the vacancies,

(g) an assessment of a childcare provider's waiting lists and reasons why the waiting lists exist,

(h) the range of services offered by each of the childcare types,

(i) the age range of children in the types of childcare,

(j) the range of average hourly fees charged for the childcare,

(k) an assessment of demand for childcare in the area, including—

(i) the effect of change in the number of—

(aa) children using childcare,

(bb) children using Welsh medium childcare,

(**6**) The Department for Work and Pensions designates certain of its offices throughout the United Kingdom as Jobcentre Plus offices. Jobcentre Plus offices support working-age individuals to find employment and to claim benefits.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(cc) children with additional learning needs, and

(ii) the effect of population change, and

(l) any other factors that the local authority consider relevant to demand.

**Geographical distribution**

**3.** The local authority's assessment must include details of—

(a) the geographical distribution of each type of childcare in the local authority's area,

(b) any gaps in that geographical distribution, and

(c) consideration of the effects of childcare supply and demand in neighbouring local authority areas.

**Sustainability**

**4.** The assessment must include details of any factors that have affected the sustainability of existing childcare providers in the local authority's area.

**Gap analysis**

**5.** The assessment must include an analysis of the supply and demand and any gap in the supply and demand for childcare provision in the local authority's area, taking into account a local demographic analysis.

**Summary of unmet needs**

**6.** Where any unmet childcare needs have been identified in the local authority's area, the assessment must include an analysis of those needs that have not been met, including—

(a) types and range of childcare services unavailable;

(b) age of children;

(c) times at which childcare is unavailable;

(d) location of childcare;

(e) provision for children with additional learning needs or who require specialist care due to a disability;

(f) Welsh language childcare provision;

(g) other language childcare provision;

(h) funded childcare places;

(i) any other factors.

**Barriers to childcare provision**

**7.** The assessment must include details of any barriers identified in accessing the provision of childcare, including—

(a) the accessibility of childcare provision;

(b) whether the cost of childcare prevents or discourages parents from accessing services;

(c) the barriers experienced by—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) working parents;

(ii) parents seeking work or training opportunities;

(iii) unemployed households;

(iv) low income families;

(v) lone parent families;

(vi) families from ethnic minority backgrounds;

(vii) families with children who have additional learning needs;

(d) any other barriers identified.

**Development and training**

**8.** The assessment must include an analysis of any issues identified in relation to the development of the workforce for childcare services in the local authority area, including existing workforce qualifications and training and an outline of how they will be addressed.”

*Dawn Bowden*
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
9 February 2026